

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

10 o fis Mai 2021 trwy gyfrwng Zoom

Presennol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a diolchodd i Tyly Roberts am lywio'r Cyngor mor ddeheuig am 3 mlynedd. Cydymdeimlwyd gydag Eleri Jones yn ei phrofedigaeth o golli chwaer yn ddiweddar.
2. Nid oedd ymddiheuriadau.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Nid oedd datganiadau buddiant.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Chwefror 22, 2021.
6. Materion y Clerc:
 - i. Bioamrywiaeth yn y fynwent: Cyfarfu Anna Williams, Swyddog Addysg a Chymuned Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyda Chynghorwyr, gwirfoddolwyr o'r gymuned a phlant y pentref i blannu saith o goed afalau traddodiadol Cymreig yn y fynwent ar 23 o fis Mawrth. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad ac am y rhodd o goed afalau. Bu'r Clerc yn eu dyfrio trwy sychdwr mis Ebrill ac mae rhai blodau arnynt. Gosododd y Cadeirydd Tyly Roberts focs adar yn y goedlan a nodwyd fod yno res o goed palalwyfen (pisgwydden */lime*) tua 25 oed yn y goedlan. Neilltuwyd rhan o'r fynwent i dyfu'n wyllt ar gyfer bioamrywiaeth a chytunodd y Cyngor i brynu arwydd i ddynodi hynny. Cytunwyd i ofyn am yr enwau Cymraeg ar blanhigion os bydd hyfforddiant i'r cyhoedd yn y fynwent.
 - ii. Cafwyd cyfle i fynd mewn i'r Eglwys a sylwyd ar yr elor geffyl yn crogi ar y wal. Mae elor bren yn y sied yn y goedlan.
 - iii. Lluchio slei bach: deliodd y Clerc a'r Cynghorydd gyda sawl achos a diolchwyd i Gyngor Gwynedd am ymateb ar unwaith i'r cwynion.
 - iv. Diolchwyd i Tyly Roberts a Clwyd Davies am lanhau'r ciosgau ac am brofi'r di-ffib. Cytunwyd i adnewyddu'r batris yn Llangywer, i osod bwlb newydd yno, ac i glirio'r llyfrau sydd wedi hel yn Rhosygwaliau. Diolchwyd i Andrew Roberts am gynnig rhoi silffoedd pwrpasol yn y ciosg i ddal nifer cyfyngedig o lyfrau. Cytunodd y ddau i gofnodi ar y we bob tro y maent yn gwirio'r batri. Bydd gwneud hyn yn diogelu'r Cyngor.
7. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd y Cynghorydd Alan Jones Evans am gynllun gweithredu tai Cyngor Gwynedd, yn cynnwys codi premiwm o 100% ar dai gwyliau. Mae eithriad o ddwy flynedd ar gael i brynwyr y tro cyntaf ar gyfer tŷ sydd yn cael ei adnewyddu.

Mae'r Adran Briffyrdd yn bwrw ymlaen gyda rhaglen ail wisgo ardaloedd penodol yn y plwyf; mae ffordd Cymerig yn cael ei hail-wynebu, ac mae ardaloedd eraill yn cael sylw i broblemau llai.

ArwyddwydCadeirydd _____.....(Clerc)

Tynnwyd sylw at gyfamod ar rai ystadau sydd yn gwahardd rhedeg busnes; addawodd Cyngorydd Alan Jones Evans i dynnu sylw Cyngor Gwynedd ar gyfer pwysu ar Lywodraeth Cymru. Mae angen edrych ymhellach i oblygiadau cynllunio a newid defnydd tai/busnes.

8. Materion Ariannol:

- i. Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol 2019-20 a nodwyd nad oedd materion yn codi.
- ii. Cymeradwywyd y Cysoniad Banc, yr Esboniad o Wahaniaethau a'r Ffurflen Flynyddol 2020-21 i'w cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol.
- iii. Derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept sef £2,125
- iv. Cytunwyd i dalu anfoneb Yswiriant y Cyngor i Zurich sef £117.87.
- v. Cytunwyd i ymaelodi gydag Un Llais Cymru am y flwyddyn hon, sef £44.
- vi. Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol ac yn arbennig Penderfyniad 40.
- vii. Anfoneb torri gwrych – adroddwyd nad yw'r siec am y gwaith (dyddiad Rhagfyr 2020) wedi ei chyflwyno i'r Banc a bod y Clerc wedi cysylltu gyda'r derbynydd.

9. Gohebiaeth:

- i. Parc Cenedlaethol Eryri: Nodwyd derbyn Ymgynghoriad Atodol ar geisiadau cynllunio Telethrebu a Mastiau
- ii. Parc Cenedlaethol Eryri: Webinar ar fesurau rheoli ymwelwyr 20/5/21 rhwng 7.00 – 8.00pm - bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei e-bostio i'r Cynghorwyr.
- iii. Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth ar yr hyfforddiant sydd ar gael.
- iv. Ffederasiwn CFFI Meirionnydd – derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor.
- v. Trafodwyd cynnwys e-bost am ddyfodol Eglwys Santes Gwawr. Llangywer. Er cymaint y dymuniad i warchod yr adeilad, cadarnhawyd nad oes hawliau – na chyllid - gan y Cyngor i'w gyfrannu. Bu dirywiad mawr yng nghyflwr yr adeilad ers i'r perchennog newydd feddiannu'r adeilad. Cytunwyd i anfon llythyr at Cadw i dynnu eu sylw at gyflwr yr adeilad a all fod yn fgythiad i iechyd a diogelwch y cyhoedd sy'n mynychu'r fynwent, sy'n safle cyhoeddus, ac i'r tîm cynnal a chadw. Bydd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth am y cwmni sydd berchen yr adeilad ar hyn o bryd*, gan y deallir ei fod ar werth. Tynnir sylw at yr elor geffyl a cheisir ei sicrhau ac i'w diogelu.
- vi. Goryrru ar B4391 rhwng Tŷ Tan y Graig â Bryn Ffynnon: adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru a Siwrne Saff yn dilyn derbyn cwyn gan aelodau o'r cyhoedd am oryrru ar y B4391. Gofynnwyd am gamerâu ar y ffordd, a chadarnhawyd fod yr Heddlu wedi bod mewn cysylltiad â'r achwynwyr ac wedi cynyddu eu presenoldeb ar y ffordd.

ArwyddwydCadeirydd _____.....(Clerc)

10. Materion y Cynghorwyr:

- i. Binau yn y maes parcio heb glo ac wedi eu llenwi gyda dillad: addawodd Cynghorydd Alan Jones Evans i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn.
- ii. Goryrru yn Llangywer: cytunodd Cynghorydd Alan Jones Evans i geisio cael camera, a drych i helpu cerbydau sy'n ymuno a ffordd Llangywer.
- iii. Bydd y Cynghorydd Alan Jones Evans yn ceisio cael dyddiad ar gyfer trwsio pont Rhosygwaliau; bydd angen torri'r coed a'r tyfiant yn ôl hefyd.
- iv. Mae'r Warden wedi rhoi sylw i'r toiled anabl yn y maes parcio yn Llangywer.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Mehefin 21, 2021. Gobeithir cynnal y cyfarfod yn y Neuadd yn Llangywer.

Amser gorffen 9.30pm

NP5/70/LB889ALLT/RLR

Eglwys Santes Gwawr Church, Llangywer, Bala LL23 7BY

Owners:

Alton Property Management Ltd
The Estate Office
PO Box 6047
Lichfield
WS14 4GF

The Building was elevated to Snowdonia Park's Buildings At Risk (BAR) Register to a Category 3 (13/1/2017 – Arwel Thomas)

In correspondence to owners, Arwel Thomas wrote:

"Progress should be made in respect of remedying the condition (photographs and description provided) SNP has the option to take enforcement action under the Town and Country Planning Act 1990"

Some work was undertaken on the bell tower but the building has since fallen into a far greater state of decay and is in imminent danger of collapse, thus endangering visitors and ground workers in the churchyard which is currently in use and owned by Cyngor Cymuned Llangywer Community Council. The churchyard is also part of the Council's Biodiversity Plan and volunteers (including children) regularly visit.

ArwyddwydCadeirydd _____.....(Clerc)